# Tîm Iechyd Cyhoeddus Deintyddol

# Y DEFNYDD O ANESTHETEG CYFFREDINOL WRTH ROI TRINIAETH DDEINTYDDOL I BLANT YNG NGHYMRU

**Awdur:** Maria Morgan

**Comisiynwyd gan: Prif Swyddog Deintyddol Cymru**

**Dyddiad:** 22 Medi 2015 | **Fersiwn:** Terfynol

**Cyhoeddiad/ Dosbarthiad:**

- Prif Swyddog Deintyddol Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (mewnol)
- Byrddau Iechyd
- Pwyllgorau Deintyddol Lleol

**Dyddiad Adolygu:** Ebrill 2016

**Diben y Ddogfen a Chrynodeb Ohoni:**

Diben y gwaith hwn yw pennu ffigur cyffredinol ar gyfer triniaethau deintyddol o dan anesthetig cyffredinol i blant rhwng 0-17 mlwydd oed yng Nghymru yn ystod 2014-15 a chymharu hynny â data a gasglwyd yn ystod 2013-14, 2012-13 a 2011-12. Bydd y wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Prif Swyddog Deintyddol i fonitro darpariaeth anestheteg cyffredinol a'r ymdrechion i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

**Cyfeirnod y Cynllun Gwaith:**

Cynllun Gwaith Tîm Iechyd Cyhoeddus Deintyddol Amcan 3.3

# 1 Y Defnydd o Anestheteg Cyffredinol Wrth Roi Triniaeth Ddeintyddol i Blant yng Nghymru

**Cefndir**

Argymhellodd ymchwiliad 2011 i Iechyd y Geg ymhlith Plant a gynhaliwyd gan Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

> *Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod data am y nifer o achosion o weinyddu anesthetig cyffredinol i blant a phobl ifanc ar gyfer gwaith deintyddol yng Nghymru yn cael ei gasglu a bod hynny'n cael ei adrodd fel rhan o fonitro Cynllun Gwên.*

Roedd ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor yn cytuno â'r argymhelliad hwn, ac yn cydnabod:

> *Gallai hyn fod yn ddangosydd defnyddiol o lwyddiant Cynllun Gwên, ond mae'n bwysig casglu'r data hyn ar gyfer Cymru gyfan, gan ddefnyddio dull cadarn a safonol.*

O ganlyniad blaenoriaethwyd y cam gweithredu hwn yng Nghynllun Cenedlaethol y Prif Swyddog Deintyddol ar gyfer Iechyd y Geg:

> *Yn dilyn argymhellion gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi data ar nifer y plant sy'n cael triniaeth ddeintyddol o dan anesthetig deintyddol bob blwyddyn. (Cynllun Cenedlaethol Cymru ar gyfer Iechyd y Geg, Mawrth 2013, tudalen 30)*

## 1.1 Diben

Diben y gwaith hwn yw pennu ffigur cyffredinol ar gyfer triniaethau deintyddol o dan anesthetig cyffredinol i blant rhwng 0-17 mlwydd oed yng Nghymru yn ystod 2014-15 a chymharu hynny â data a gasglwyd yn ystod 2013-14, 2012-13 a 2011-12.

## 1.2 Dull

*Casglwyd y data drwy gysylltu'n uniongyrchol â rheolwyr darparwyr triniaethau deintyddol yn gofyn am wybodaeth ar gyfer 2014-15. Nid oedd y casgliad data hwn yn cynnwys triniaethau deintyddol a reolwyd drwy dawelyddu ymwybodol.*

Mae'n bwysig nodi nad oes systemau ar waith ledled Cymru i gynhyrchu data manwl gywir ac amserol mewn perthynas ag anestheteg cyffredinol deintyddol.

## 1.3 Casgliadau

Cyflawnwyd cyfanswm o 7,855 o driniaethau deintyddol o dan anesthetig cyffredinol yng Nghymru yn ystod 2014-15. Cyflwynir y rhain fesul Bwrdd Iechyd Lleol y darparwr yn Nhabl 1 a fesul Bwrdd Iechyd Lleol lle mae'r claf yn byw yn Nhabl 2. Mae hyn yn cyfateb i 1.16% o'r boblogaeth sydd o dan 18 sy'n cael triniaeth ddeintyddol o dan anesthetig cyffredinol yng Nghymru yn ystod 2014-15 (Tabl 3). Neu mae *un o bob 86 o blant* ledled Cymru yn cael triniaeth ddeintyddol o dan anesthetig cyffredinol.

Dylai Byrddau Iechyd fod â mecanweithiau cadarn ar waith i gofnodi a monitro data ar anesthesia cyffredinol deintyddol at ddibenion llywodraethu clinigol lleol; gan gynnwys data ar lefel cofnod unigol sy'n rhoi gwybodaeth ddemograffig, manylion y driniaeth a'r math o anesthetig. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn rhwydd pan wneir cais amdani gan Iechyd Cyhoeddus Cymru neu Lywodraeth Cymru. Mae rhai darparwyr gwasanaethau yn gallu gwneud hyn; mae rhai yn gallu darparu is-set o'r wybodaeth fonitro ddelfrydol, ond nid yw eraill wedi bod mewn sefyllfa i ddarparu'r wybodaeth lawn y gwnaethpwyd cais amdani, gweler Tabl 1.

**Tabl 1 Y defnydd o anestheteg cyffredinol wrth roi triniaeth ddeintyddol i blant fesul Bwrdd Iechyd Lleol y darparwr – 2014-15**

| BILl y Darparwr | Darparwr | 0-2 oed | 3-17 oed | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Abertawe Bro Morgannwg | Clinig Parkway | | | 1494 |
| | Ysbyty Treforys | 11 | 111 | 122 |
| | Tywysoges Cymru | 7 | 76 | 83 |
| Aneurin Bevan | Kensington Court | 0 | 1342 | 1342 |
| Aneurin Bevan | Aneurin Bevan (gan gynnwys Brenhinol Gwent) | 55 | 308 | 363 |
| Betsi Cadwaladr | Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol | 2 | 1188 | 1190 |
| Cwm Taf | Tywysog Charles | 82 | 273 | 355 |
| Caerdydd a'r Fro | Ysbyty Deintyddol y Brifysgol | 124 | 949 | 1073 |
| Caerdydd a'r Fro | Brenhinol Morgannwg (Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol Caerdydd a'r Fro drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth) | 12 | 561 | 573 |
| Hywel Dda | Clinig Parkway | | | 1257 |
| Powys | Lleol Powys | 0 | 3 | 3 |
| **CYFANSWM CYMRU** | | **293** | **4811** | **7855** |

Mae'n ymddangos bod rhai anghysondebau data yn y modd y cofnodwyd y defnydd o anestheteg cyffredinol wrth roi triniaeth i blant ar gyfer trigolion Powys. Dim ond tair triniaeth ddeintyddol gan ddefnyddio anesthetig cyffredinol a gwblhawyd ar blant dan 18 oed gan ddarparwr ym Mhowys (Tabl 1). Yn ôl Bwrdd Iechyd Powys, cafodd 27 o blant o Bowys driniaeth dan anesthetig cyffredinol gan Fyrddau Iechyd Lleol eraill yng Nghymru. Roedd y data a anfonwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol eraill Cymru at Uned Gwybodaeth Iechyd Geneuol Cymru yn nodi cyfanswm o 20 o blant ar gyfer Powys (Tabl 2). Er enghraifft nododd Bwrdd Iechyd Cwm Taf (Tywysog Siarl) ei fod wedi rhoi triniaeth i 15 o drigolion Powys (Tabl 2) ond roedd Bwrdd Iechyd Powys yn nodi mai 12 oedd y ffigur hwn. Nododd PABM mai dim ond 4 o drigolion Powys yr oedd wedi'u trin, ond cofnodwyd hyn fel 11 claf gan Fwrdd Iechyd Powys. Fodd bynnag, dylid nodi mai prin yw'r ffigurau anghyson dan sylw ac mae eu heffaith ar y darlun cenedlaethol yn fach iawn.

## Tabl 2 Y defnydd o anesthesia cyffredinol wrth roi triniaeth ddeintyddol i blant fesul Bwrdd Iechyd Lleol y claf - 2014-15

| BILl lle mae'r claf yn byw | Darparwr | Nifer y cleifion o'r BILl |
|---|---|---|
| Aneurin Bevan | Kensington Court | 1342 |
| Aneurin Bevan | Caerdydd a'r Fro – Ysbyty Deintyddol y Br | 90 |
| Aneurin Bevan | Ysbyty Brenhinol Gwent | 359 |
| Aneurin Bevan | Ysbyty Treforys | 1 |
| Aneurin Bevan | Tywysog Siarl | 69 |
| Aneurin Bevan | Tywysoges Cymru | 1 |
| **CYFANSWM ANEURIN BEVAN** | | **1862** |
| Abertawe Bro Morgannwg | Parkway | 1494 |
| Abertawe Bro Morgannwg | Ysbyty Treforys | 75 |
| Abertawe Bro Morgannwg | Tywysoges Cymru | 53 |
| Abertawe Bro Morgannwg | Tywysog Siarl | 7 |
| Abertawe Bro Morgannwg | Caerdydd a'r Fro - Gwasanaethau Cymunedol Deintyddol - yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 3 |
| Abertawe Bro Morgannwg | Caerdydd a'r Fro – Ysbyty Deintyddol y Brifysgol | 20 |
| **CYFANSWM ABERTAWE BRO MORGANNWG** | | **1652** |
| Betsi Cadwaladr | Gwasanaethau Cymunedol Deintyddol | 1190 |
| **CYFANSWM BETSI CADWALADR** | | **1190** |
| Cwm Taf | Caerdydd a'r Fro – Gwasanaethau Cymunedol Deintyddol - yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 534 |
| Cwm Taf | Caerdydd a'r Fro – Ysbyty Deintyddol y Brifysgol | 80 |
| Cwm Taf | Tywysog Siarl | 256 |
| **CYFANSWM CWM TAF** | | **870** |
| Caerdydd a'r Fro | Caerdydd a'r Fro – Ysbyty Deintyddol y Brifysgol | 878 |
| Caerdydd a'r Fro | Caerdydd a'r Fro - Gwasanaethau Cymunedol Deintyddol - yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 4 |
| Caerdydd a'r Fro | Ysbyty Treforys | 5 |
| Caerdydd a'r Fro | Tywysog Siarl | 6 |
| Caerdydd a'r Fro | Tywysoges Cymru | 0 |
| **CYFANSWM CAERDYDD A'R FRO** | | **893** |
| Hywel Dda | Parkway | 1257 |
| Hywel Dda | Ysbyty Treforys | 38 |
| Hywel Dda | Tywysoges Cymru | 28 |
| Hywel Dda | Tywysog Siarl | 1 |
| Hywel Dda | Caerdydd a'r Fro - Gwasanaethau Cymunedol Deintyddol - yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 5 |
| Hywel Dda | Caerdydd a'r Fro – Ysbyty Deintyddol y Brifysgol | 2 |
| **CYFANSWM HYWEL DDA** | | **1331** |
| Powys | Ysbyty Treforys | 3 |
| Powys | Brenhinol Gwent | |
| Powys | Tywysoges Cymru | 1 |
| Powys | Caerdydd a'r Fro – Ysbyty Deintyddol y Brifysgol | 3 |
| Powys | Tywysog Charles | 15 |
| Powys | Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys | 3 |
| **CYFANSWM POWYS** | | **25** |
| **CYFANSWM CYMRU** | | **7823** |

*namyn 4 claf - Powys, Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Swindon ac Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Gorllewin Swydd Gaerloyw
**namyn 1 ar gyfer PCH - Lloegr
***Ysbyty Brenhinol Morgannwg heb bennu ym mha Fwrdd Iechyd Lleol roedd 27 o gleifion yn byw

Mae tabl 3 yn dangos nifer y triniaethau dan anesthetig cyffredinol fesul uned o’r boblogaeth plant. Gan ystyried mai’r prif arwydd o driniaeth dan anesthetig cyffredinol yw ymdrin â dannedd a effeithir gan bydredd, byddem yn disgwyl darpariaeth uwch o driniaethau dan anesthetig cyffredinol mewn ardaloedd â lefelau uwch o bydredd.

**Tabl 3 Nifer y triniaethau dan anesthetig cyffredinol ymhlith y boblogaeth o dan 18**

| BILl | Nifer y plant <18 oed | Nifer yr achosion o anesthetig cyffredinol fesul BILl lle mae’r claf yn byw | % amlder |
|---|---|---|---|
| Powys | 27850 | 25 | 0.09 |
| Caerdydd a’r Fro | 105416 | 893 | 0.85 |
| Betsi Cadwaladr | 148940 | 1190 | 0.80 |
| Aneurin Bevan | 133632 | 1862 | 1.39 |
| Cwm Taf | 66495 | 870 | 1.31 |
| Hywel Dda | 81028 | 1331 | 1.64 |
| Abertawe Bro Morgannwg | 110726 | 1652 | 1.49 |
| **CYMRU** | **674087** | **7823** | **1.16** |

*Data Cyfrifiad 2011 (wedi’i gyfrifo o grwpiau oedran un flwyddyn).


*Noder Nid yw 1 triniaeth dan anesthetig cyffredinol yn cyfateb i 1 plentyn. Efallai bod ambell blentyn wedi cael mwy nag un driniaeth.*

Mae’r lefelau uchaf o bydredd ymysg plant 3, 5 a 12 oed i’w gweld yn ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol Cwm Taf ac Aneurin Bevan. Mae’r cyfraddau uchaf o driniaethau dan anesthetig cyffredinol a gofnodwyd ym Myrddau Iechyd Lleol PABM ac yn arbennig Hywel Dda yn wahanol i’r hyn a fyddai’n ddisgwyliedig o ystyried y lefelau pydredd cymedrig a gofnodwyd.

## 1.4 Cymhariaeth â gweithgaredd blynyddoedd blaenorol (gan gynnwys Gwaelodlin 2011-12)

Mae ffigur 1 yn cymharu gweithgaredd 2014-15 yn erbyn data 2013-14, 2012-13 a 2011-12, sef y flwyddyn gyntaf lle y casglwyd data ar gyfer yr ymarfer hwn ac mae’n gweithredu fel data llinell sylfaen.

## Ffigur 1 Gweithgaredd anesthesia cyffredinol 2011-2015




**Mae ffigur 2011-12 wedi'i addasu i amcangyfrif y nifer y gallai Aneurin Bevan fod wedi'i gofnodi ar gyfer Ysbyty Brenhinol Gwent.*

Yn gyntaf mae'n bwysig nodi nad oedd ffigurau 2011-12 yn cynnwys data o Ysbyty Brenhinol Gwent ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan, oherwydd ni chafodd ei gofnodi. Er mwyn gwneud cymhariaeth decach rhwng y pedair blynedd yr adroddir arnynt, mae llinell sylfaen 2011-12 wedi'i haddasu i gynnwys 214 o driniaethau dan anesthetig cyffredinol (sef ffigur 2012-13). Pe baem yn rhagdybio bod tua'r un nifer o driniaethau dan anesthetig cyffredinol wedi'u cyflawni yn Aneurin Bevan yn 2011-12, yna'r **llinell sylfaen wedi'i haddasu ar gyfer Cymru** ar gyfer y flwyddyn honno fyddai 9,092 + 214 = **9,306.**

Nifer y triniaethau deintyddol dan anesthetig cyffredinol i blant yng Nghymru yn 2014-15 oedd 7,855, ac mae hyn yn cymharu'n ffafriol â ffigurau a gofnodwyd yn flaenorol (Ffigur 1). Mae hyn yn gyfystyr â gostyngiad o 16% (1451) yn nifer y triniaethau dan anesthetig cyffredinol i blant ers 2011-12 (gan dybio bod llinell sylfaen wedi'i haddasu o 9,306).

## 1.5 Trafodaeth

Wrth adolygu data a gyflwynwyd gan ddarparwr/comisiynydd mae'n amlwg bod datblygiadau diweddar o ran gwell meini prawf sgrinio cleifion a llwybrau gofal newydd wedi dechrau cael effaith. Yn ystod 2014-15 mae gweithgaredd anesthesia cyffredinol ar gyfer y grŵp hwn sy'n agored i niwed wedi lleihau ar gyfer Parkway, Kensington Court ac Ysbyty Deintyddol y Brifysgol.  Ond, bu cynnydd bach yn y gweithgaredd yn Nhreforys, Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg (Ffigur 2(ii)).

Er ei bod yn ymddangos bod nifer y plant yng Nghymru sy'n cael triniaeth ddeintyddol dan anesthetig cyffredinol yn lleihau – nid yw hyn yn cyfateb i ostyngiad mewn pydredd dannedd ymhlith plant Cymru – mae'n adlewyrchu'r newidiadau mewn protocolau asesu a thrin.

Mae'n bwysig cydnabod bod rhanddeiliaid allweddol wedi mynegi pryder ynglŷn â thystiolaeth o gyfrif dwbl ac anghysondebau eraill yn y data – felly mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli data ar anestheteg cyffredinol.


Roedd barn broffesiynol a fynegwyd gan randdeiliaid allweddol yn awgrymu y gallai peth o'r gostyngiad hwn adlewyrchu argaeledd sesiynau anesthetig cyffredinol ac amseroedd aros hwy ac efallai nad yw'n gysylltiedig â lleihad yn y galw. Mae argaeledd Gwasanaeth Deintyddol Pediatrig arbenigol a gwasanaethau tawelyddu ymwybodol hefyd yn cael effaith ar y defnydd o driniaethau deintyddol lle y defnyddir anestheteg cyffredinol.

O gymharu ag ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol eraill mae darpariaeth anestheteg cyffredinol ym Myrddau Iechyd PABM ac yn arbennig Hywel Dda yn uwch na'r hyn a ddisgwylid o ystyried nifer yr achosion o bydredd.

## Casgliad


Bu lleihad yn nifer y triniaethau deintyddol dan anesthetig cyffredinol ymysg plant yng Nghymru yn 2014/15 o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae'n ymddangos bod y gostyngiad hwn o ganlyniad i newidiadau mewn llwybrau gofal a phrosesau atgyfeirio lleol mewn rhai Byrddau Iechyd.

## Ffigur 2(i) Gweithgaredd anestheteg cyffredinol 2011-2015 a gyflwynwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol lle mae'r claf yn byw




| | PABM | Aneurin Bevan | Betsi Cadwaladr | Cwm Taf | Caerdydd a'r Fro | Hywel Dda | Powys |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2011-12 | 2193 | 1985 | 1547 | 1042 | 878 | 1444 | 0 |
| 2012-13 | 2068 | 2230 | 1373 | 1011 | 989 | 1427 | 30 |
| 2013-14 | 2059 | 2167 | 1304 | 960 | 1012 | 1357 | 42 |
| 2014-15 | 1652 | 1862 | 1190 | 870 | 893 | 1331 | 25 |

# Ffigur 2(ii) Gweithgaredd anestheteg cyffredinol 2011-2015 a gyflwynwyd gan ddarparwr o fewn ffiniau'r Bwrdd Iechyd Lleol




| | ABERTAWE BRO MORGANNWG | | ANEURIN BEVAN | | BETSI CADWALDAR | CWM TAF | CAERDYDD A'R FRO | | HYWEL DDA | POWYS |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Clinig Parkway | Ysbyty Treforys (yn cynnwys Tywysog Cymru) | Kensington Court | Aneurin Bevan (yn cynnwys Brenhinol Gwent) | Gwasanaethau Cymunedol Deintyddol | Tywysog Siarl | Ysbyty Deintyddol y Brifysgol | Brenhinol Morgannwg (Gwasanaethau Cymunedol Deintyddol Caerdydd a'r Fro drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth) | Clinig Parkway | |
| 2011-12 | 1997 | 209 | 1827 | 0 | 1547 | 284 | 1143 | 717 | 1368 | 0 |
| 2012-13 | 1903 | 227 | 1834 | 214 | 1373 | 385 | 1244 | 605 | 1343 | 1 |
| 2013-14 | 1941 | 156 | 1834 | 146 | 1304 | 424 | 1244 | 549 | 1297 | 9 |
| 2014-15 | 1494 | 205 | 1342 | 363 | 1190 | 355 | 1073 | 573 | 1257 | 3 |

## 1.6 Argymhellion

1.5.1 Argymhellir bod Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd yn parhau i fonitro'r defnydd o anestheteg cyffredinol wrth roi triniaethau deintyddol i blant, ac ar ôl i'r newidiadau i lwybrau gofal a phrosesau atgyfeirio gael eu gwreiddio ym mhob Bwrdd Iechyd, dylem wedyn fod mewn sefyllfa i asesu unrhyw newidiadau sy'n gysylltiedig â gwella iechyd y geg.

1.5.2 Mae angen dull canolog o gofnodi, a dull safonol o gasglu data ar anestheteg cyffredinol deintyddol a ddefndydir wrth drin plant, ac mae angen i'r data fod yn ddigon cadarn i ddiwallu gofynion llywodraethu. Dylai Byrddau Iechyd gael mecanweithiau cadarn i gofnodi a monitro data ar anestheteg cyffredinol deintyddol at ddibenion llywodraethu clinigol lleol. Wedyn dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn rhwydd at ddibenion adrodd (yn genedlaethol/rhanbarthol/lleol) er mwyn llywio cynllunio gwasanaethau.

1.5.3 O fewn eu Cynlluniau Lleol ar gyfer Iechyd y Geg, dylai pob Bwrdd Iechyd ddatblygu strategaethau ar gyfer y tymor canolig a'r hirdymor i leihau'r defnydd o anestheteg cyffredinol wrth roi triniaeth ddeintyddol i blant. Dylai Byrddau Iechyd sydd heb systemau asesu safonol a chynllunio triniaethau, ac sydd heb gyswllt â gwasanaeth tawelyddu ymwybodol a Gwasanaeth Pediatrig arbenigol o fewn eu llwybr gofal anestheteg cyffredinol deintyddol presennol ailedrych ar eu llwybr gofal. Mae dal angen i rai Byrddau Iechyd ystyried a yw contractau hanesyddol ar gyfer anestheteg cyffredinol yn adlewyrchu'r angen presennol, ac a allai datblygu/gwella tawelyddu ymwybodol a gwasanaethau Pediatrig arbenigol o fewn lleoliad gofal sylfaenol/cymunedol leihau'r angen am anestheteg cyffredinol.